Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25

## Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych




**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych**
Uned 10 / 11, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy. Sir Ddinbych LL17 0LJ
Phone: 0300 111 2120 Fax: 0300 800 4485 post@gofalathrwsio.com

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych Registered Charity Number 1171303 Company Number 9827000 Vat Reg No 379 5295 39

**Ein Cenhadaeth:** "Galluogi pobl hŷn neu bobl fregus i aros yn eu cartrefi eu hunain yn annibynnol, yn ddiogel, yn gyffyrddus ac yn gynnes."

**Ein Gweledigaeth yw bod yn:** "Ddarparydd blaengar gwasanaethau arloesol sy'n gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu bobl fregus."

Nod Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yw galluogi pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yneu cartref eu hunain drwy

## Y Bwrdd Rheoli 2024-25



Gwenan Carrington
Aelod Bwrdd - Annibynnol



Clifton Robinson
Cadeirydd



Claire Shiland
Aelod Bwrdd - Annibynnol



Alexander Weick
Aelod Bwrdd - Annibynnol



Helen Jones
Ysgrifennydd Y Cwmni (Rheolwr Llywodraethu aChydymffurfio Grwp Cynefin)



Sally Baxter
Cynrychiolydd Grwp Cynefin



Paul Quirk
Aelod Bwrdd - Annibynnol



Melville Evans
Aelod Bwrdd - Cynrychiolydd Grwp Cynefin

## Llywodraethu

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmni i Grŵp Cynefin. Mae'r Asiantaeth yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gwasanaethau craidd.
Mae'n gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac yn elusen gofrestredig.

Trefnir ymweliad â'r cartref i drafod anghenion y cleient ac i adnabod gwaith trwsio, gwaith cynnal a chadw neu addasiadau priodol, gan gynnig y datrysiadau, y costau tebygol a ffynonellau cyllido potensial.

Amcanion yr elusen yw sicrhau budd i'r cyhoedd, lleddfu angen, salwch, anabledd a gwaeledd iechyd, yn enwedig ond nid yn unig ymhlith y rhai dros 60 oed sy'n byw yn ardaloedd Conwy a Sir Ddinbych.

Llywodraethir Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ganFwrdd ac mae'n cydymffurfio â Chod LlywodraethuCartrefi Cymunedol Cymru.

# Cydweddu Strategol a Llywodraethu



Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn gweithredu fel rhan annatod o strwythur grŵp Grŵp Cynefin, gan gyfrannu at gyflawni ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025-2028: "Lle i Berthyn."

Mae Prif Swyddog yr Asiantaeth yn aelod o Brif Dîm Arweinyddiaeth (PDA) Grŵp Cynefin, gan sicrhau cydweddu strategol a chydweithio gweithredol ar draws y sefydliad. Hefyd, gwahoddir Cadeirydd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych i fynychu pob cyfarfod o Fwrdd y Grŵp, gan atgyfnerthu llais yr asiantaeth ar y lefel uchaf o lywodraethu.

Mae Bwrdd yr Asiantaeth hefyd yn chwarae rhan weithredol mewn sawl pwyllgor ar draws y Grŵp, gan gynnwys: Pwyllgor Pobl, Archwilio a Risg, Pwyllgor Gweithrediadau, a Phwyllgor Tenantiaid, gan gyfrannu at oruchwyliaeth gadarn a gwneud penderfyniadau gwybodus. Ym mis Ebrill 2025, lansiodd Grŵp Cynefin ei Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2025–2028. Mae'r strategaeth hon yn nodi fframwaith clir ar gyfer gwelliant parhaus, gyda'r nod o adeiladu sefydliad gwydn, modern, sy'n cael ei yrru gan bwrpas. Mae'n cyd-fynd yn agos â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau perthnasedd ac ymatebolrwydd ar draws pob maes o'n gwaith.

Mae Grŵp Cynefin yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddysgu o'r gorffennol ac esblygu ein cynnig i denantiaid, cwsmeriaid a staff. Y ffocws yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chanlyniadau ystyrlon i'r cymunedau a wasanaethwn. Yn Grŵp Cynefin, rydym i gyd yn credu bod tai yn fwy na brics a morter yn unig—mae'n ymwneud â phobl, cartrefi, a chreu lle i berthyn.

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?
# MAE'R ASIANTAETH YN DATHLU EI PHEN-BLWYDD YN 10 OED YN 2025

Gwnaeth Gofal a Thrwsio Conwy uno gyda Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2015 ilunio Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych. Bu'n darparu gwasanaethau craidd ar draws Conwy a Sir Ddinbych yn llwyddiannus am 10 mlynedd.
**Ers 2015 mae'r asiantaeth wedi helpu cyfanswm o 48,673 o bobl!**




Cipolwg ar flwyddyn lwyddiannus arall yn darparu gwasanaethau Gofal a Thrwsio ledled Conwy a Sir Ddinbych yn ystod 2024-2025

## Rhai o'r uchafbwyntiau

- **Cynhadledd Gofal a Thrwsio Cymru**

Bu staff ac aelodau'r Bwrdd yng Nghynhadledd Gofal a Thrwsio Cymru yn Venue Cymru yn Llandudno yn 2024, wedi'i gadeirio gan Gadeirydd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, Gwynne Jones, wnaeth ymddiswyddo yn y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Medi. Penodwyd Clifton Robinson yn gadeirydd o Fedi 2024.

Cynhelir Cynhadledd Gofal A thrwsioCymru yn gwesty Hilton,Caerdydd, Medi 2025.

- **Cyfarfod ag Aelod Seneddol Llafur Gogledd Clwyd - Gill German**

Yn Hydref 2024, ymwelodd ein Aelod Seneddol lleol, Gill Ger-manein asiantaeth gyda'n Prif Swyddog.

Mynychodd ein gweithiwr achosysbyty i gartref iachaf digwyddiadgyda Gill yn Neuadd St David BaeColwyn 2024.



- **Gwasanaeth Ysbyty i Cartref Iachach**

Gan fod ein Gwasanaeth Achosydd Hospital i Gartref Iachach, sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn llwyddianus, mae cyllid wedi'i ddyfarnu am 3 blynedd o Ionawr 2025.Mae'r gwasanaeth hwn yn hwyluso rhyddhau ysbyty diogel i gartrefi sydd wedi derbyn addasiadau a gwasanaeth cymorth gweithwyr achos sy'n caniatáu rhyddhau yn amserol ac atal aildderbyn.

Gan weithio gyda'n partneriaeth yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - rydym hefyd yn darparu Gwasanaeth Cymorth Diogelwch Tân yn y Cartref i'r cleientiaid hyn.

**Gwnaeth y staff ac aelodau'r Bwrdd gwblhau nifer o gyrsiau hyfforddiant yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys:-**

Diogelu, Codi a chario, gweithio ar uchder, hyfforddiant Asesydd Dibynadwy TACT, cwrs ymwybyddiaet i Wardeniaid Tân, hyfforddiant PASMA a hyfforddiant Cymorth Cyntaf mewn argyfwng.

Hyfforddiant mewnol iHasco sy'n cynnwys:

Ymwybyddiaeth ynghylch Iechyd Meddwl, Hanfodion Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb, Amrywiaetha Chynhwysiant. GDPR

## Mae ein is-bennawd, “Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd”

**yn cydnabod fod cartrefi gwael yn arwain at ansawdd iechyd gwael ac ansawdd bywyd gwael. Rydan ni yn gwneud gwahaniaeth drwy weithio â phartneriaid i wella bywydau llawer o bobl hŷn neu bobl fregus a chaniatáu iddyn nhw fyw mor annibynnol ag y bo modd yn eu cartrefi eu hunain, gyda chymorth ein gwasanaethau ni.**




## Gofal a Thrwsio - Hyrwyddwr Tai ar ran Pobl Hŷn.

**Rydym ni'n fudiad elusennol sy'n gweithredu ledled Cymru sy'n gweithio i sicrhau bod gan yr holl bobl hŷn gartrefi sy'n ddiogel ac yn addas i'w anghenion.**

Dechreuodd y gwasanaeth Hynach nid Oerach ar 1 Ebrill 2024. Mae hwn yn wasanaeth i bobl dros 60 oed yng Nghymru. Mae Hynach nid Oerach yn wasanaeth ledled Cymru sy'n cynorthwyo pobl hŷn i gadw eu cartrefi'n gynnes a lleihau eu biliau ynni. Mae ein Swyddog Ynni cyfeillgar yn arbenigo mewn sicrhau bod y cartref wedi'i inswleiddio ac yn gynnes. Mae'n cynnig cyngor ar ffyrdd i arbed ynni, gan sicrhau bod y system wresogi'n ddiogel ac yn effeithlon. Mae'n helpu i ddatrys problemau gyda thamprwydd, llwydni a chyddwysiad ac yn rhoi cymorth i wneud ceisiadau am grantiau. Cyllidir a hyrwyddir y gwasanaeth Hynach nid Oerach gan gwmni Wales & West Utilities hyd at Mawrth 2026.

Cyflwynodd yr asiantaeth ddau wasanaeth gwaith achos newydd yn 2024 – y Gwasanaeth Hynach nid Oerach a'r Gwasanaeth Swyddog Ynni a gyllidir gan National Energy Action Cymru. Gwnaethom dderbyn cyllid ar 1 Rhagfyr 2024 i roi cyngor ac arweiniad i aelwydydd perchennogbreswylydd dros 50 oed sy'n byw gyda chyflwr iechyd neu sy'n byw gydag unigolyn â chyflwr iechyd. Cyllid gan NEA Cymru ar gyfer SwyddogYnni – Gwaith Achos a swyddog gweinyddol sy'n ymdrin ag atgyfeiriadau gan leoliadau gofal sylfaenol. Mae'r cyllid gan NEA Cymru am gyfnod o 18 mis fel cynllun peilot. Bydd y gwasanaeth yn arwain at well iechyd a llesiant, yn ogystal ag atal a lleihau'r ymweliadau i wasanaethau iechyd sylfaenol ac ysbytai.

### Gweithio mewn partneriaeth hefo

Care & Repair Cymru · Grŵp Cynefin (Mwy na thai • More than housing) · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government · Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council · Conwy (Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council) · GIG Cymru / NHS Wales · Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

### Uchafbwyntiau rhai digwyddiadau yn 24/25

Sgwrs i Grŵp Clefyd Parkinson Hosbis Dewi Sant

Digwyddiad Bod yn ymwybodol o Ddementia a gynhaliwyd yn y FaenolFawr, Bodelwyddan

Sgwrs i Gyngor Sir Ddinbych –
Y Ganolfan Adnoddau Cymunedol, Y Rhyl

Fforwm Ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Bwyty 1891, Theatr y Pafiliwn, Y Rhyl

Fforwm Pobl Hŷn Age Connect – Llandudno

Clinigau adferiad pwlmonaidd bob chwe wythnos yn Ysbyty Llandudno a Chanolfan Gymuned Bodelwyddan

Sgwrsio am wresogi yn Fforwm Tlodi Tanwydd NEA Cymru

# Darparwyd y gwasanaethau hyn gennym yn ystod 2024/2025





**1** Mae'r **gwasanaeth Gofal a Thrwsio** craidd yn cael ei cyllido gan Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i berchnogion cartref sy'n hyn neu'n fregus i fyw more annibynnol ag y bo modd, gan gynyddu ei diogelwch, eu cynhesrwydd a'u cyffyrddusrwydd. Mae'r gwasanaeth gweithiwr achos ymweld â'r cartref yn darparu gwiriad cartrefi iach gyda chefnogaeth y Swyddog Technegol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas ag atgyweiriadau, gwelliannau cynnal a chadw ac addasiadau.

- Gwnaethom dderbyn 814 o atgyfeiriadau ar gyfer y gwasanaethau craidd.

**2** Mae gwasanaeth **Ymdopi'n Well** yn rhoi gwybodaeth am ddim a chymorth ymarferol i bobl dros 50 oed. Fe'i cynigir i'r rhai sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw, i bobl sy'n fyddar, pobl sy'n byw gyda dementia a phobl sydd wedi goroesi strôc neu'r rhai sydd angen cymorth i gadw'n ddiogel yn eu cartref ac ymdopi'n well.

- Cawsom 392 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Ymdopi'n Well yn ystod y flwyddyn 24/25, gan gefnogi unigolion â nam synhwyraidd

**3** Mae **Rhaglen Addasiadau Brys** yn fenter strategol gan Lywodraeth Cymru i helpu pobl hŷn i fynd adre o'r ysbyty a/neu i wneud eu cartref yn fwy diogel, drwy ddarparu gwasanaeth addasiadau ar raddfa fechan neu waith trwsio heb oedi, gan atal eu derbyn i'r ysbyty.

Gwnaed gwaith i gynorthwyo i leihau cwympiadau yn achos 74% o gleientiaid y Rhaglen Addasiadau Brys.

- Derbyniodd 2,071 o bobl grant gan y Rhaglen Addasiadau Brys i addasu eu cartref i'w galluogi i barhau i fyw yno'n annibynnol.

**4** Mae'r gwasanaeth **Gwella cartrefi arloesol Gerddi Gwyrdd** yn wasanaeth ymarferol sy'n gallu gwella ansawdd bywyd pobl hŷn neu agored i niwed, trwy gyflawni gwaith preifat – mawr a bach ac addasiadau yn y cartref.

- O fewn 24/25 roedd Gerddi Gwyrdd yn cwblhau:
  39 tasg addasu ystafell ymolchi gan Gerddi Gwyrdd.
  769 o dasgau gwaith preifat werth £393,115.

**5** Mae **gwasanaeth Adre o'r Ysbyty** i Gartref Iachach yn sicrhau y gwneir addasiadau hanfodol i gartref claf fel y gellir eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel, gan arbed diwrnodau gwely yn yr ysbyty ar gost o £300 yr un i'n partner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- Derbyniwyd 606 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty.
  Arbedwyd 3,096 o ddyddiau mewn gwely yn yr ysbyty.

**6** Mae **gwasanaeth Hynach nid Oerach** yn wasanaeth i bobl dros 60 oed yng Nghymru, sy'n berchen ar eu cartref neu sy'n rhentu'n breifat. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys asesu'r cartref, rhoi cyngor ynghylch sicrhau cyllid a sut i wneud cais am grantiau, cymorth gyda biliau ynni, help i ddatrys problemau tamprwydd, llwydni neu gyddwysiad a gwaith trwsio neu waith arall i wella effeithlonrwydd ynni a chynhesrwydd y cartref.

- Derbynlwyd 97 o atgyfeiriadau Hynach nid Oerach.

**7** Mae **Swyddog Ynni yn y Cartref** gyda'r prosiect NEA Cymru 'Cartrefi Cynnes, Dyfodol Iach' yn gwneud yn siwr fod cartrefi'n cael eu cadw'n gynnes. Bydd y swyddog yn asesu cartrefi, gan sicrhau eu bod wedi'u hinswleiddio a'u gwresogi'n dda, rhoi cyngor ar ffyrdd i arbed ynni, rhoi cymorth gyda cheisiadau am grantiau a budd-daliadau, sicrhau bod systemau gwresogi ac offer yn ddiogel, cynorthwyo i wneud gwelliannau ble bo tamprwydd a chyddwysiad.

- Derbyniwyd 37 o atgyfeiriadau i'r gwasanaeth a gyllidir gan NEA Cymru.

**8** **Gwneud y mwyaf o incwm** Mae ein gweithwyr achos ar draws pob gwasanaeth yn darparu asesiadau budd-daliadau i sicrhau bod budd-daliadau priodol yn cael eu derbyn.



# Adborth gan gleientiaid

Diolch yn fawr iawn i bawb yng Ngofal a Thrwsio am yr holl waith rydych chi wedi'i gyflawni i'w gwneud yn llawer haws i mi aros yn fy nghar tref fy hun.

Gwnaeth Gerddi Gwyrdd ailosod drws cwpwrdd yn y gegin yn ddiweddar, i agor i'r cyfeiriad arall. Oherwydd y cyfyngiadau i'w symudedd mae wedi gwneud gwahaniaeth anhygoel ac mae hi wedi'i phlesio'n fawr iawn!

Rwy'n cysylltu i fynegi fy niolch dif fuant am y cymorth rhagorol mae Gofal a Thrwsio wedi ei roi i fy mam. Mae hi'n weddw oedrannus sy'n byw ar ei phen ei hun yn y Rhyl. Rydw i, ei mab, yn byw ym Melbourne, Awstralia. Gan fy mod mor bell, mae'n anodd peidio â phoeni am ei diogelwch a'i lles. Yn anffodus, mae pobl a oedd yn honni eu bod yn helpu wedi cymr yd mantais arni yn y gorffennol, fel yr adeg pan wnaeth rhywun guro ar ei drws a dweud y byddent yn adnewyddu teils wedi chwythu oddi ar y to, ond wedi mynd ati i'w dwyn. Felly mae gwybod ei bod hi'n cael cymorth dibynadwy gan eich tîm chi wedi bod yn rhyddhad mawr i ni'n dau. Mae eich gwaith chi wedi gwneud gwahaniaeth, a byddaf yn ddiolchgar bob amser yn gwybod eich bod chi yno i wneud gwaith ar ran fy mam. Rydw i mor ddiolchgar ac yn dymuno y medrwn i wneud rhywbeth i ddweud wrth bawb pa mor wych ydi eich tîm a'ch sefydliad

Rhannu ein Hamperi Nadolig blynyddol ym mis Rhagfyr 2024. Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn tynnu enwau cleientiaid allan o het bob blwyddyn! Yna mae'r basgedi'n cael eu cyflwyno iddyn nhw gan y staff!






Gweithwyr achos a swyddog technegol

Rydw i wrth fy modd. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy mywyd i, ac r ydw i mor ddiolchgar. Roeddwn i'n ofni colli fy nghydbwysedd ar y grisiau, ond rwy'n gallu mynd i fyny ac i lawr heb draffer th rwan. Fedrwn i ddim wedi gallu dychmygu sut y byddai'r grisiau wedi gwneud gymaint o wahaniaeth yn fy mywyd. Mae'r canllaw y tu allan yn ddefnyddiol iawn ac r ydw i mor ddiolchgar. Roedd y gweithwyr a wnaeth y gwaith yn hyfryd, diolch yn fawr iawn.

Gwaith gwych. Mi faswn i wrth fy modd yn gweithio i chi petawn i ychydig yn iau. Mae Gofal a Thrwsio bob amser yn gwneud yn union beth maen nhw'n ei ddweud maen nhw'n mynd i'w wneud, ac mae hynny'n rhywbeth i fod yn falch iawn ohono. Mae pawb wedi bod mor gwrtais ac rydw i'n fodlon iawn efo'r gwaith gorffenedig. Roedd y gweithwyr mor gyflym ac yn daclus iawn. Diolch yn fawr iawn am bopeth rydych chi'n ei wneud.

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

0300 111 2120

Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hŷn

Am bob **£1** a wariwyd ar y Rhaglen Addaasiadau Brys, arbedwyd **£7.50** ar gyllidebau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel,yn gynnes a yn annibynnol yn eu carterfi eu hunain.

Fe wnaethom helpu 276 o bobl i gynyddu eu hincwm budd-daliadau lles o gyfanswm o **£931,813**.

Gerddi Gwyrdd Home Improvement Services

79 Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

**39** Addasiadau ystafelloedd ymolchi a gwblhawyd gan Gerddi Gwyrdd.

Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

5,597 - pobl a rydym wedi helpu ar draws yr holl wasanaethau

96% o gleientiaid RRAP yn teimlo yn fwy annibynnol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio.

94% a fyddai'n argymell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill.

90% O gleientiaid yn fodlon â'n gwasanaethau

74% Fe wnaethom help 74% o cleientiaid i geisio lleihau codymau.

2 0 7 1 Pobl sydd â grant RRAP i addasu eu cartref

Ffigyrau 2024/2025 ar gyfer Gwasanaeth HIA Sir Conwy & Dinbych ar Rhaglen Addasiadau Brys.

Conwy — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board · Grŵp Cynefin Mwy na thai • More than housing · Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Care & Repair Cymru · Cefnogir gan Lywodraeth Cymru Supported by Welsh Government

---

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

0300 111 2120

Y Gwasanaeth Tai i Bobl Hŷn

**"Rwy'n teimlo'n llawer mwy annibynnol"**

**"Rydych chi bob amser yn gwneud yn union yr hyn rydych chi'n ei addo"**

**"Mae eich gwaith wedi gwneud cymaint o wahaniaeth."**

## Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel,yn gynnes a yn annibynnol yn eu carterfi eu hunain

Atcyfeiriadau Ysbyty i'r cartref.
606

**769- Gwaith Gerddi Gwyrdd a ariennir yn breifat gwerth £393,115**

Nododd **98%** o gleientiaid wella **annibyniaeth.**

Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

811 - Nifer yr addasiadau a gwblhawyd ac eithrio RRAP

686 Nifer o Wiriadau Diogelwch Tan yn y Cartref.

**3,096** diwrnodau gwely wedi'u arbed

392 Atgyfeiriadau ymdopi'n well

814 Atgyfeiriadau Gwaith Achos Craidd

97 Atgyfeiriadau Hŷn nid oerach

37 Atgyfeiriadau Cyngor Ynni Cenedlaethol

2024/25 figures for Conwy & Denbighshire HIA Services and Rapid Response Adaptations Programme (RRAP)

# Perfformiad Ariannol

| | 2024/25<br>£ | 2023/24<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R CYFRIF INCWM A GWARIANT** | | |
| Incwm | 1,731,978 | 1,549,621 |
| Gwariant | (1,641, 956) | (1,473,713) |
| **Gwarged / Ddiffyg am y flwyddyn** | 90,022 | 75,908 |

| | 2024/25<br>£ | 2023/24<br>£ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O'R FANTOLEN** | | |
| Asedau sefydlog | 11,333 | 13,410 |
| Asedau cyfredol | 1,076,251 | 942,994 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (133,612) | (92,454) |
| **Asedau net** | 953,972 | 863,950 |
| Cronfa Refeniw | 936,170 | 842,954 |
| Cronfa wedi ei gyfyngu | 17,802 | 20,996 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | 953,972 | 863,950 |